# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y_Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 17 Mehefin 2020

Amser y cyfarfod: 12.30

## 281(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu:

- Y cworwm i unrhyw bleidlais fod yn ddilys fydd pedwar Aelod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.10;
- Yn unol â Rheol Sefydlog 34.11, caiff pob grŵp gwleidyddol (neu grwpiad a ffurfir at ddibenion Rheol Sefydlog 11) enwebu un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gael yr un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp neu yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, aelodau'r grŵp hwnnw yn ogystal ag unrhyw aelodau eraill o'r llywodraeth;
- Caiff gofynion Rheol Sefydlog 12.56 ynghylch cwestiynau llafar eu datgymhwyso, yn unol â Rheol Sefydlog 34.18.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

### Teyrngedau i I Mohammad Asghar AS

### 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(5 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes]

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (COVID-19) - i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbynniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Coronafeirws (COVID-19) - i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

## 5 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - COVID-19: Adferiad - i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)

## 6 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

**NDM7332** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 a [osodwyd] yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2020.

**Dogfennau Ategol**
[Memorandwm Esboniadol]
[Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad]

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

NDM7333 Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mehefin 2020.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Dadl Plaid Brexit - Codi'r Cyfyngiadau Symud - Wedi'i gohirio tan 24 Mehefin

NDM7334 Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i gyflymu'r gwaith o godi mesurau'r cyfyngiadau symud;

b) gweithio gyda Llywodraeth y DU i gefnogi dull gweithredu ar gyfer y DU gyfan;

c) hwyluso ail-agor economi Cymru yn gyflymach;

d) diystyru codi cyfraddau treth incwm Cymru i dalu costau ymestyn y cyfyngiadau symud.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Neil McEvoy (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Sicrhau bod y broses o lacio'r cyfyngiadau symud yn digwydd yn ddiogel drwy sicrhau bod y rhaglen lymaf bosibl o brofi, olrhain, ynysu a thrin yn cael ei rhoi ar waith.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 11.00, Dydd Mercher, 24 Mehefin 2020

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

Dydd Mercher 24 Mehefin 2020

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud) – *Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau*
- Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)

**Busnes y Llywodraeth**

- Dadl: Cyllideb Atodol gyntaf ar gyfer 2020-21 (60 munud)
- Dadl: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (15 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydliad 34 (5 mun)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Effaith argyfwng COVID-19 ar sector y celfyddydau (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)

**Dydd Mercher 1 Gorffennaf 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit – yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol" (30 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)

**Busnes y Llywodraeth**

- Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Argyfwng Hinsawdd (45 mins)
- Dadl: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 (15 munud)

**Busnes y Senedd**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

**Dydd Mercher 8 Gorffennaf 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)

**Busnes y Llywodraeth**

- Datganiad gan y Weinidog Addysg: Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (60 munud)

**Busnes y Senedd**

- Amser a neilltuwyd i‘r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)